CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 14, 2023

**www.cyngorllanelltyd.cymru**

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Mawrth 14, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Llinos Rowlands, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Eleri Jones a Gareth Ellis. Hefyd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Gwenan Owen ac Elfed ap Gomer.

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 14, 2023**

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Rowlands ac eilwyd gan Geraint Rowlands

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Chwefror 14, 2023**

Eitem 10.c. Llythyr (17/2/2023) oddi wrth Delyth Griffith yn rhoi gwybod mae'r ymgynghoriad anffurfiol wedi cau (19.12.2022-31.01.2023). Y cam nesa fydd map rhyngweithiol, sydd yn cynnwys y rhwydwaith i gyd, yn cael ei gyflwyno i'r gymuned yn ei gyfanrwydd i dderbyn barn yn yr wythnosau nesaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 10.d. Llythyr (21/2/2023), gyda lluniau, oddi wrth Delyth Griffith y dangos y gwaith oedd angen ei wneud ar hen bot Wnin i Swyddog Tim Tacluso Ardal Ni.

Anfonwyd y llythyr a'r lluniau i'r aelodau.

Llythyr (23/2/2023) oddi wrth Swyddog Tim Tacluso Ardal Ni gyda lluniau yn dangos bod y gwaith wedi cael ei wneud.

Anfonwyd y llythyr a'r lluniau i'r aelodau.

Cafwyd wybod bod fwy o waith angen ei wneud.

Eitem 10.a. Llythyr (22/2/2023) oddi wrth Mabon ap Gwynfor AS yn rhoi gwybod bydd yr Ambiwlans Awyr yn parhau i'n gwasanaethu o'r meysydd awyr yng Nghaernarfon a'r Trallwng.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (16/2/2023) oddi wrth Theatr Bara Caws yn diolch am ein rhodd o £50.

b. Llythyr (19/2/2023) oddi wrth Mr Pike, Neuadd Bontddu, yn diolch am ein rhodd i'r Neuadd. Roedd y llythyr yn cynwys nodyn yn gofyn am weld cyfrifon y Cyngor. Rhoddwyd gwybod iddo byddant ar wefan y Cyngor ar ôl iddynt gael eu harchwilio gan Archwilio Cymru.

c. Derbyniwyd (20/2/2023) £856 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab am gladdu gweddillion Barbara Allen.

d. Llythyr (21/2/2023) oddi wrth Marei Curie yn diolch am ein rhodd o £150.

dd. Llythyr (22/2/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod eu gweithgareddau a gyda Ffurflen Aelodaeth 2023-2024. Tal aelodaeth yw £109.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd talu'r dal aelodaeth.

e. Llythyr (27/2/2023) oddi wrth Democratiaeth, Amrywiaeth, a Chydnabyddiaeth Ariannol, Llywodraeth Cymru yn cynwys Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â thaliad costau i'r Aelodau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (27/2/2023) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £350.

g. Bil (27/2/2023) am £435.20 oddi wrth Cyngor Gwynedd am y bin halen ac am ei lenwi.

Penderfynwyd talu'r bil.

h. Llythyr (6/3/2023) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £400.

i. Bil (8/3/2023) am £280.00 oddi wrth Archwilio Cymru am Archwilio 2020 / 2021.

Penderfynwyd talu'r bil.

j. Llythyr (14/3/2023) oddi wrth Llygad y Dydd yn diolch am ein rhodd o £100.

l. Balans yn y banc ar 28/2/2023: £10,934.02. (28/2/2022: £10,889.23).

**6. Archwilio**

**7. Mynwent Llanelltyd**

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/2/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (27/2/2023) oddi wrth Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Ymgyrch Diolch am 20. Maent am helpu cynghorau cymuned a thref i ddeall y newid cyflymder i 20mya a'i alluogi i fod yn llwyddianus. Mi fyddant yn egluro'r newidiadau, rhoi gwybodaeth ar y we, a chynnal cyfarfodydd ar Zoom.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (6/3/2023) oddi wrth Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd. Gydag ymgyrch i gefnogi datgarboneiddio trafnidiaeth ffyrdd trwy ddefnyddio cerbyd trydan mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynyddu pwyntiau gwefru trwy'r Wlad. Mae'n bosib bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfraniad ariannol at yr ymgyrch. Maent angen gwybod os mae tir yn y gymuned i osod pwyntiau gwefru. Amgáu mae rhestr o feysydd parcio lle mae pwyntiau gwefru wedi eu gosod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (9/3/2023) oddi wrth Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC), Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae hwb newydd i Tim Tacluso Ardal Ni wedi ei sefydlu i gael gwybodaeth am y gwaith maent yn eu gwneud. Eu cyfeiriad yw: Tîmau Tacluso 'Ardal Ni' Tidying Teams (sharepoint.com)

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (24/2/2023) yn rhoi gwybod mae Mr Ieuan Vaughan o Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod mae'r achos llys gan CNC yn mynd yn ei flaen. Mae cwmni Serve-Max o dde Cymru wedi pledio yn euog i adael y gwastraff mewn lle anaddas. Mae Steve Williams, cyfarwyddwr y Cwmni, yn cael ei ddedfrydu ym mis Medi 2023. Mae'r llys wedi gofyn iddo glirio'r gwastraff cyn mis Medi . Os bydd yn clirio'r safle cyn Mis Medi 2023 mi fydd yn cael llai o ddedfryd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (10/3/2023) yn rhoi gwybod mae Mr Paul Williams, gŵr lleol o Ddolgellau, wedi casglu arian i gael diffibriliwr ar gyfer Bontddu oherwydd iddo golli ffrind tua 18 mis yn ôl. Mae trigolion lleol wedi gofyn am un yn Bontddu. Mae Mr Williams yn fodlon cyfarfod y Cyngor i drafod y mater.

Penderfynwyd i Mr Williams ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod y mater. Penderfynwyd hefyd i'r Clerc gwneud ymoliadau gydag Un Llais Cymru i gael gwybod sut maent yn cynhorthwyo cynghorau cymuned i gael diffibriliwr.

c. Mae'r 'bollards' ar ochr ffordd wrth Pen Nebo, Bontddu wedi cael eu symud ond am ddau sydd eu hangen fel mater o ddiogelwch.

ch. Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn adolygu ceisiadau cynllunio oherwydd niferoedd o dai haf.

d. Bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith ar ochr ffordd sydd o flaen tai Swn y Nant, Bontddu.

**11. Materion Brys**

a. Mae angen trwsio'r fainc a thacluso gwaith cerrig wal sydd wrth hen bont Wnin, Llanelltyd.

b. Cafwyd gwybod (21/2/2023) bod Alun Grtffiths Contractors wedi clirio'r hen ffordd rhwng y giat a'r bont ger yr hen doiledau.

c. Garth-gell ynteu Hafod Mawddach yw enw cywir? Nid yw Elfed wedi cael gafael ar Martin Evans i'w holi eto. Mae Elfed wedi cael ateb gan Cyngor Gwynedd ond nid yw'n boddhaol iawn. Y cwmni sy'n ei hysbysebu sy'n defnyddio'r enw 'newydd'- dydy'r enw ddim wedi newid – ond y peryg ydy y gallai'r OS weld yr enw newydd a dechrau defnyddio hwnnw ar eu mapiau.

ch. Y groes ar 'capel' Soar. Anaddas? Mae'r Parc wedi cael gwybod o'r mater.

d. Angen trwsio wyneb y ffordd rhwng Tŷ'n y Coed a Phont Cwm Mynach.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

dd. Cafwyd wybod bod ambell i riant yn sôn am yr arwydd newydd 30 sydd wedi ei roi yn ganol llwybr gerdded i'r Ysgol. Amgáu mae llun.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i Delyth gwneud ymoliadau â Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i symud yr arwydd 30 (sydd i fod yn 20) i ochr dwyreiniol o'r gyffordd sy'n arwain o'r A496 i'r Neuadd. Hefyd gwneud ymoliadau ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i gael arwyddion 30mya ar yr A470 sy'n mynd trwy Llanelltyd.